# SchoolBeat.org



Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

# Cylchlythyr

## Haf 2016

The All Wales School Liaison Core Programme
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Gydweithiwr,

## Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich seibiant dros y Pasg.

**Mae cylchlythyr yr haf yn llawn gwybodaeth, cyngor a newyddion i'ch cynorthwyo chi a'ch ysgol. Esgeuluso plant yw testun erthygl nodwedd y tymor hwn.**

## Cynnwys...


ERTHYGL NODWEDD

Beth ydi Esgeuluso Plant? ........ p 2-3

O dan y sbotolau – Nicotin ........ p 4-5

Sgwteri hunan gydbwyso a chludwyr personol ........ p 6

Beth Nesa'? ........ p 6-7

Be' sy'n newydd?

Gwrthsafiad a Pharch ........ p 8

Cyflwyniad gwasanaeth ar Eithafiaeth ........ p 9

O'r wasg!

Mewnwelediad gweinidogion i rôl SHCY mewn ysgolion ........ p 10


# Beth ydi esgeuluso

## Y diffiniad ar gyfer Cymru...

"Ystyr esgeuluso ydi methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sydd yn debygol o arwain at amharu ar les yr unigolyn hwnnw (er enghraifft, amharu ar ddatblygiad plentyn)."

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Cymru)

### Mae pedwar prif faes i esgeuluso plant:

- **CORFFOROL** – anghenion sylfaenol plentyn, e.e. bwyd a dillad, ddim yn cael eu diwallu
- **ADDYSGOL** – diffyg cefnogaeth i ddysgu
- **EMOSIYNOL** – anwybyddu neu beidio rhoi anogaeth i blentyn, eu hynysu neu eu gwrthod
- **MEDDYGOL** – peidio sicrhau bod plentyn yn cael gofal iechyd, gan gynnwys gofal deintyddol



**Dylai pawb sy'n gweithio ym maes addysg rannu'r un dyhead i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Os bydd gan unrhyw aelod o staff 'bryderon' neu 'ffeithiau hysbys' ynghylch plentyn, yna dylent ddweud wrth yr Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) yn yr ysgol.**

# Cyfrifoldeb Pawb

**"Y llynedd adnabuwyd 24,300 o blant fel rhai oedd angen eu diogelu rhag esgeulustod"**

Ffynhonnell: Ystadegau cynllun diogelu plant Lloegr ac ystadegau cofrestr diogelu plant Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru (2015)

## Pethau y byddwch efallai yn sylwi arnyn nhw yn yr ysgol

Os ydych yn poeni fod plentyn yn cael ei esgeuluso neu ei gam-drin, cadwch lygad am newidiadau mewn:

- **ymddygiad**
- **perthnasau â phlant eraill**
- **emosiynau neu'r ffordd maen nhw'n gweld eu hunain.**
- **perfformiad yn yr ysgol**
- **perthynas â'u rhieni.**

Er bod adnabod yr arwyddion ac ymyrryd cyn gynted â phosibl yn hollbwysig, dydy hi byth rhy hwyr i helpu plentyn. **Gallwch ffonio'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol neu'r NSPCC ar 0808 800 5000.**

Os bydd plentyn yn dweud wrthych eu bod nhw neu berson ifanc arall yn cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin, dyma'r hyn y dylech ei wneud:

- **dangos i'r plentyn eich bod wedi clywed yr hyn maen nhw'n ei ddweud a'ch bod yn cymryd y peth o ddifri**
- **annog y plentyn i siarad, ond ni ddylech ofyn cwestiynau arweiniol**
- **osgoi torri ar draws pan mae'r plentyn yn dweud wrthych chi beth sydd wedi bod yn digwydd**
- **peidio â gwneud i'r plentyn ailadrodd y peth drosodd a throsodd**
- **egluro pa gamau y maen rhaid i chi eu cymryd, mewn ffordd sy'n addas ar gyfer oed a dealltwriaeth y plentyn**
- **peidio addo y byddwch yn cadw'r peth yn gyfrinach**
- **nodi ar bapur yr hyn ddywedodd y plentyn cyn gynted ag y gallwch, gan ddefnyddio'r union eiriau os yn bosibl.**
- **Gwnewch nodyn o'r dyddiad, amser, lleoliad a phwy oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth.**
- **Ni ddylech siarad â'r unigolyn sy'n cael eu cyhuddo.**

## Gall plant gysylltu â MEIC neu ChildLine 24/7.

MEIC — gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer eich bywyd / information, advice and support for your life

**Am gyngor ac arweiniad cyffredinol ynghylch diogelu plant, gallwch gysylltu â'ch Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion (SHCY)**

ChildLine 0800 1111

# O dan y SBOTOLAU...
# Nicotin



## Nicotin

Daw tybaco o ddail y planhigyn tybaco. Mae'r dail yn cynnwys cyffur o'r enw **Nicotin**, sy'n gyffur caethiwus dros ben. Mae unrhyw gyffur sy'n cael ei ysmygu yn mynd i'r ymennydd yn gyflym. Pan fydd ysmygwr yn anadlu i mewn, bydd y nicotin yn cyrraedd yr ymennydd mewn tua 8 eiliad.





## Ysmygu a'r gyfraith

Ers mis Hydref 2007 mae wedi bod yn anghyfreithlon gwerthu cynnyrch tybaco i unrhyw un o dan 18 oed yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys cynnyrch fel sigaréts, sigarau, tybaco, pibellau a phapurau sigaréts. Mae'n anghyfreithlon ysmygu mewn lle cyhoeddus oherwydd yr effaith y mae mwg tybaco yn ei gael ar bobl eraill.

Ar Hydref 1 2015 daeth yn anghyfreithlon ysmygu mewn car (neu gerbydau eraill) gydag unrhyw un iau na 18 yn bresennol. Newidiwyd y gyfraith i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag peryglon mwg ail law.

Erbyn hyn gellir rhoi dirwy o £50 i yrrwr cerbyd ac i'r person sy'n ysmygu os oes rhywun iau na 18 yn y cerbyd. Mae'r gyfraith yn berthnasol i bob gyrrwr yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys gyrwyr 17 oed a rhai sydd â thrwydded dros dro.

## Risgiau

- **gall goddefiant a dibyniaeth ar ysmygu achosi niwed difrifol i iechyd – gall achosi emffysema, broncitis, clefyd y galon, strôc a chanser.**
- **amcangyfrifir fod ysmygu yn cyfrannu at 120,000 o farwolaethau cynamserol yn y DU bob blwyddyn**
- **oherwydd ei fod yn achosi problemau â chylchrediad y gwaed mae cysylltiad rhwng ysmygu a cholli coesau a breichiau gyda thua 2000 o bobl y flwyddyn wedi eu heffeithio**

- **Mwg ail law – bob tro y bydd plentyn yn anadlu mwg ail law bydd yn anadlu miloedd o gemegau. Mae hyn yn eu rhoi mewn perygl o ddioddef cyflyrau difrifol gan gynnwys meningitis, canser, broncitis a niwmonia. Gall hefyd wneud asthma yn waeth.**
- **Mae merched beichiog sy'n ysmygu yn peryglu iechyd eu babi ac yn debygol o gael babi ysgafnach nag y dylai fod,**



## Tasg CA2 Is RhGCYCG Gwers am dybaco

Ewch i'r adran athrawon a disgyblion ar

**www.schoolbeat.org**

am ragor o wybodaeth.




dan 24/7

0800 6 33 55 88

## Cefndir

Mae **DAN 24/7** yn wasanaeth cyswllt Cymru gyfan dwyieithog, am ddim, cyfrinachol a hawdd ei gael sy'n rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i blant a phobl ifanc ac yn gallu eu cyfeirio at asiantaethau eraill all eu helpu gydag amrywiaeth o broblemau camddefnyddio sylweddau.

**Y pwnc llosg ar hyn o bryd i DAN 24/7 ydy Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN).**

Mae gan DAN 24/7 adran wybodaeth arbennig am SSN sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ar gyfer defnyddwyr, rhieni a gofalwyr.

## Manylion cyswllt DAN 24/7 – Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru

- **Ffôn –** Am ddim 0808 808 2234
- **Gwefan –** www.dan247.org.uk i gael gwybodaeth am gyffuriau a manylion am asiantaethau yn eich ardal leol
- **Neges Testun –** Tecstiwch y gair DAN a'ch cwestiwn i 81066
- **Cyfryngau cymdeithasol –** gellir cael negeseuon preifat at Twitter a Facebook
  - **Facebook via DAN 24/7** Llinell Gymorth Cyffuriau ac Alcohol Cymru
  - **Twitter –** Neges breifat @dan_247

"Os mai tabledi neu bowdwr ydi o – sut 'da chi'n gwybod o ddifrif be' sydd ynddo? 'Da ni'n gwybod fod SSN yn aml yn cael eu gwneud allan o bob math o bethau afiach..."

Janet Roberts – Rheolwr Llinell Gymorth DAN24/7

# Sgwteri Hunan Gydbwyso a Chludwyr Personol



## Mae sgwteri hunan gydbwyso, yn enwedig byrddau hofran, yn boblogaidd iawn ymysg plant a phobl ifanc.

Caiff cludwyr personol, megis y 'Segway' eu pweru â thrydan ac maent yn cludo teithiwr sy'n sefyll ar blatfform sydd ar ddwy olwyn neu fwy. Byrddau hofran yw 'Segway' heb y golofn ganolog a'r handlen. Mae'n nhw'n gallu teithio ar gyflymder o hyd at 12 mya.

## Y Gyfraith

Allwch chi ddim ond reidio sgwter hunan gydbwyso heb ei gofrestru ar dir sydd yn eiddo preifat a hynny gyda chaniatâd perchennog y tir. Oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn gerbydau modur, byddai'r sawl sy'n eu reidio yn destun Cyfraith Traffig y Ffyrdd.

**Mae'n drosedd dan Adran 72 o Ddeddf Priffyrdd 1835 i reidio neu yrru cerbyd ar y palmant yng Nghymru a Lloegr.**

**Cyngor yr Adran Trafnidiaeth yw y dylid gwisgo dillad diogelwch priodol bob amser.**

# Beth Nesa'/ What Next?

**Ym mis Hydref 2015, gofynnodd arolwg gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru o'r enw Beth Nesa? i bron 7,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion beth oedden nhw'n ei feddwl y dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio arno yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.**

Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Chwefror 2016.

**Dangosodd y canlyniadau mai prif flaenoriaethau plant oedd:**

### Plant 3 - 7 oed

- Mwy o lefydd i chwarae
- Mwy o arian i deuluoedd

### Plant 7 - 11 oed

- Stopio bwlio
- Helpu plant a theuluoedd nad oes ganddynt ddigon o bres
- Gwneud ardaloedd lleol yn fwy diogel i blant



## Pobl ifanc rhwng 11 - 18

- Gweithredu er mwyn atal pobl ifanc rhag cael eu bwlio
- Diogelu plant rhag trais a chamdriniaeth yn y cartref
- Llefydd gwell i bobl ifanc dreulio amser yn yr ardal leol



## Dywedodd yr oedolion a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn hoffi gweld

- Gwell cefnogaeth ar gyfer plant sy'n poeni neu teimlo'n isel
- Plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag trais a chamdriniaeth yn y cartref
- Mwy o help i blant a theuluoedd nad oes ganddynt ddigon o arian

## Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth?

Bydd y wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r prosiect **Beth Nesa?** yn cael dylanwad mawr ar sut y bydd swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio yn y dyfodol agos. Yn ystod y tair blynedd nesaf bydd y swyddfa'n canolbwyntio ar y canlynol:

- **Iechyd meddwl a lles a thaclo bwlio**
- **Tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol**
- **Chwarae a hamddena**
- **Diogelwch (yn y gymuned, yr ysgol ac yn y cartref)**
- **Codi ymwybyddiaeth o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau'r Plentyn a hyrwyddo ei fabwysiad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus**
- **Helpu pobl ifanc sydd angen cymorth a gofal wrth iddynt symud tuag at fod yn oedolion**

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys crynodeb llawn o'r canlyniadau, ar wefan y Comisiynydd Plant:

**www.childcomwales.org.uk**



# Beth sy'n newydd?

# GWRTHSAFIAD A PHARCH

## Cyflwyniad

**Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 y DU wedi rhoi dyletswydd gyfreithiol ar bob ysgol i rwystro pobl ifanc rhag cael eu radicaleiddio ac i sicrhau fod y mater hwn yn cael y sylw dyladwy.**

## Beth mae hyn yn ei olygu i'ch ysgol chi?

**Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddaru eu harweiniad gwreiddiol: Gwrthsafiad a Pharch. Datblygu Cydlyniad Cymunedol - dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau (2011)**

Mae'r arweiniad newydd a'r pecyn cymorth yn cefnogi ysgolion i ddiwallu eu dyletswyddau dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch (DGD) (2015) i gadw dysgwyr yn ddiogel. Mae'r dogfennau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

- Gwrthsafiad a Pharch, Datblygu Cydlyniad Cymunedol **Gwrthsafiad a Pharch: arweiniad diweddaredig (2016)**
- **Teclyn hunan asesu Gwrthsafiad a Pharch (2016)**
- Bydd disgwyl i bob ysgol ddangos sut y maent yn rhoi'r sylw dyladwy i DGD (2015) ac Estyn fydd yn atebol am hyn. Gweler arweiniad atodol Estyn http: **http://Arweiniad Atodol: Diogelu mewn ysgolion a UCDau. (2015)**

## Yr hyn y dylai ysgolion ei wneud ar unwaith



- Cynnal adolygiad o gydymffurfiad yr ysgol â DGD (2015) gan ddefnyddio'r teclyn hunan asesu a chytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle mae angen datblygu ymhellach
- Sicrhau fod yr **Uwch Unigolyn Dynodedig (UUD)** a'r llywodraethwr sy'n arwain ar ddiogelu plant wedi derbyn yr hyfforddiant priodol
- Sicrhau fod **UUD** a staff allweddol eraill yn gwybod sut i atgyfeirio a phwy yw'r unigolion cyswllt allweddol yn yr Awdurdod Lleol y dylid cyfeirio dysgwyr y mae pryderon yn eu cylch atynt
- Sicrhau y bydd systemau hidlo'r we yr ysgol yn cadw dysgwyr yn ddiogel a bod yn ymwybodol o risgiau cysylltiedig a'r defnydd o'r amrywiaeth eang o dechnolegau digidol y mae gan ddysgwyr fynediad iddynt
- Gofalu fod yr holl staff yn ymwybodol o'r arwyddion y gallai dysgwr fod yn agored i'w radicaleiddio.

## Gofynnwch i'ch SHCY am ragor o arweiniad.

Mae'r holl SHCY wedi cael hyfforddiant ac yn gyfarwydd â'r pecyn cymorth.






# Cyflwyniad PowerPoint Newydd wedi'i anelu at CA4

**Nod 'GAN BWYLL A DYSGWCH Y FFEITHIAU' yw codi ymwybyddiaeth o beth ydi eithafiaeth a lleihau ofnau pobl ifanc ynghylch terfysgaeth er mwyn eu helpu nhw i deimlo'n fwy diogel.**

Mae'r cyflwyniad yn edrych ar y materion perthnasol i stereoteipio, rhagfarn a chamwahaniaethu sy'n gallu arwain at droseddau casineb. Bydd y mewnbwn ar gyfer cyfarfodydd boreol yn canolbwyntio ar radicaleiddio a'r arwyddion i gadw llygad amdanynt.




**Bydd disgyblion yn dysgu beth ydy eithafiaeth ac o ble i gael cymorth os ydyn nhw'n poeni am rywun.**

## Mae PwyntTeulu Cymru yn wasanaeth dwyieithog NEWYDD ar gyfer rhieni, gofalwyr ac unrhyw un sy'n gyfrifol am unigolyn ifanc yng Nghymru.

Wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru dyma'r lle i fynd am wybodaeth a chyngor i deuluoedd ar bopeth o weithgareddau lleol a gofal plant i gymorth gyda materion ariannol, llety a chadw plant yn ddiogel ar-lein.

Mae'r wefan yn un y gellir ei defnyddio'n hawdd ar bob math o declynnau gan gynnwys ffôn symudol ac mae'n cynnwys tudalen ar gyfer bob sir sy'n orlawn, o ddolenni defnyddiol, i wasanaethau lleol a gwybodaeth gyswllt hollbwysig yn ogystal â chyfleuster chwilio cyflym a dibynadwy er mwyn gwybod y diweddaraf am rianta, arbed arian ayyb. Caiff digwyddiadau lleol hefyd eu hysbysebu trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.




**Mae Pwynt Teulu Cymru yn deall y gall y rhyngrwyd fod yn rhwystr i rai teuluoedd o ran cyfathrebu, felly gall rhieni ddefnyddio llinell gymorth y gwasanaeth er mwyn cael help i chwilio am, a chael cyngor amhleidiol drwy negeseuon testun, dros y ffôn neu sgwrs ar-lein.**

**Gwefan www.familypoint.cymru**
**Facebook @familypointcymru/**
**Twitter @familypointcym**
**Llinell gymorth Neges Testun: 07860 052905**

# O'r wasg!

## MewnweledIad Gweinidogion i rôl SHCY mewn ysgolion

**Roedd disgyblion Ysgol Gyfun y Bari yn falch o groesawu Vaughan Gething AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i'w hysgol y tymor diwethaf.**

Gwyliodd Mr Gething a Mrs. Hutt wers y rhaglen ysgolion ar **Sylweddau Siecoweithredol Newydd** yn cael ei chyflwyno gan SHCY Mudie.

Meddai Mr. Gething **"Roedd sylw'r disgyblion wedi'i hoelio'n llwyr ar y wers."** Aeth ymlaen i weld dramâu a ysgrifennwyd ac a berfformiwyd gan y disgyblion i ddangos pa mor bwysig yw gwaith y SHCY mewn perthynas â'u lles. Roedd y ddau Weinidog wrth eu bodd yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gwers am bwnc mor bwysig!




## Dilynwch ni ar Twitter a Hoffwch ni ar Facebook








Cyfrifion SchoolBeat Accounts

- @schoolbeat
- @swschoolbeat
- @leadschoolbeat
- @gwschoolbeat
- @dpschoolbeat
- @nwschoolbeat